UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Rheoleiddio Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru

## Ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

Eich e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 5 Chwefror 2024 i'r canlynol:

Y Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu eu llenwi’n electronig a’u hanfon i’r cyfeiriad hwn:

E-bost: : DiwygioPCET@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – Rydym wedi rhoi enwau dros dro i'r categorïau cofrestru sef "Addysg Uwch Craidd" a "Addysg Uwch Amgen". Ydych chi'n cytuno â'r teitlau hyn, neu a oes gennych awgrymiadau eraill?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2** - A ydych yn cytuno â'r wybodaeth awgrymedig sy'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr? A oes unrhyw gynnwys arfaethedig y dylid ei ychwanegu neu ei dynnu o'r rheoliadau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Rydym o'r farn y dylai'r darparwr nodi a yw'n cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a manylion pellach ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg. Dylai'r darparwyr ddangos ymrwymiad penodol, achrededig i'r Gymraeg.** |

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys y ddau amod cychwynnol pellach arfaethedig yn y rheoliadau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – A oes unrhyw amodau cychwynnol pellach eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno â'r amodau parhaus gorfodol pellach a gynigir i'w cynnwys yn y rheoliadau?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Ceir darpariaeth yn yr amodau parhaus gorfodol pellach ar gyfer 'dysgwyr sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.' Nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at fyfyrwyr sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir mae'n drawiadol nad oes cyfeiriad o gwbl at y Gymraeg yn y ddogfen hon. Mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael y statws dyladwy ac yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.** |

**Cwestiwn 6** – A oes unrhyw amodau parhaus gorfodol eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Credwn y dylid cynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg fel un o'r amodau parhaus gorfodol eraill.** |

**Cwestiwn 7** – Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau a gynigir ar gyfer adolygu penderfyniadau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8** – A oes unrhyw faterion heblaw'r rhai a restrir y dylid galluogi'r Comisiwn i'w gorfodi os bydd darparwr wedi'i ddadgofrestru?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9**

A ydych yn cytuno â'r egwyddor o wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol asesu ansawdd addysg uwch bob chwe blynedd o leiaf i gyd-fynd â'r gofynion statudol ar gyfer rhannau eraill o'r sector ôl-16 ac arferion cyfredol CCAUC a nodir yn ei fframwaith asesu ansawdd?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Mae hi ond yn deg bod gofynion tebyg ar bob rhan o'r sector addysg. Mae hi yn hynod bwysig bod darparwyr addysg ôl-16 yn cyrraedd safon benodol. Ni ddylai'r ffaith bod dulliau cofrestru yn newid arwain at unrhyw ostyngiad mewn safonau. A ddylid asesu ansawdd addysg uwch yn amlach na chwe blynedd? Mae cyfnod astudio mewn addysg uwch yn fyrrach, fel rheol, na'r cyfnod astudio mewn ysgol, felly mae modd dadlau y dylid asesu sefydliadau o'r fath yn amlach.** |

**Cwestiwn 10** – A ydych yn rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau i'ch sefydliad yn deillio o'r rheoliadau neu'r system gofrestru?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ansicr | |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallem ei defnyddio i'n helpu i asesu costau a manteision gweithredu'r system gofrestru arfaethedig?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 12** – Ar wahân i ddarparwyr addysg uwch a'r Comisiwn, a oes unrhyw randdeiliaid eraill sy'n debygol o wynebu costau sy'n deillio o'r system gofrestru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? Os oes, rhowch fanylion y rhanddeiliaid yn y sylwadau ategol.

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 13** – A ydych yn credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cynnwys yn y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 14** - A oes lle i unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu?

| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | **Ansicr** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 15** – A oes unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o godi o'r rheoliadau ar grwpiau penodol o bobl neu leoedd penodol? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

| **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ☐ | **Ansicr** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 16** – Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol cynnig yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Siom yw nodi nad oes fawr ddim cyfeiriad at y Gymraeg a'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg yn y ddogfen hon. Mae hi'n hollbwysig cael sicrwydd y bydd darpariaeth safonol ac eang drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg a bod darparwyr yn meddu ar ymrwymiad penodol, achrededig i'r Gymraeg.** |

**Cwestiwn 17** - Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| **Dylid annog disgyblion a myfyrwyr i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid sicrhau bod cofnod clir a chynhwysfawr pa ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a dylid sicrhau bod y ddarpariaeth honno o safon ac yn cael ei gweithredu'n unol â'r hyn a nodir.** |

**Cwestiwn 18** - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i ni gadw'ch atebion yn ddienw, ticiwch yma: ☐